

Agenda – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: Hybrid – Ystafell Bwyllgora 4 I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom Owain Roberts
Dyddiad: Dydd Mercher, 1 Mai 2024 Clerc y Pwyllgor
Amser: 09.30 0300 200 6388
SeneddCyllid@senedd.cymru

Cofrestru

(09.00–09.15)

Rhag-gyfarfod preifat

(09.15–09.30)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

2 Papurau i'w nodi

(09.30)

2.1 PTN 1– Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Deddfau Trethi Cymru ac ati (Pŵer i Addasu) 2022 – 19 Ebrill 2024

(Tudalennau 1 – 2)

2.2 PTN 2 – Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol: Y wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau Ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) – 23 Ebrill 2024

(Tudalennau 3 – 5)

2.3 PTN 3 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet ynghylch dau adroddiad dadansoddol sy'n defnyddio data treth incwm i archwilio ymfudiad – 24 Ebrill 2024

(Tudalen 6)



2.4 PTN 4 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Ymateb i argymhellion a wnaed yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Ail Gyllideb Atodol 2023–24 – 25 Ebrill 2024

(Tudalennau 7 – 18)

3 Cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 3

(09.30–10.30)

(Tudalennau 19 – 33)

Yr Athro Nicola McEwen, Cyfarwyddwr y Ganolfan Polisi Cyhoeddus ym Mhrifysgol Glasgow

Yr Athro Michael Kenny, Cyfarwyddwr yn Sefydliad Bennett ar gyfer Polisi Cyhoeddus, Prifysgol Caergrawnt

Dogfennau ategol:

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Egwyl

(10.30–10.40)

4 Cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol: Sesiwn dystiolaeth 4

(10.40–11.30)

(Tudalennau 34 – 51)

Dr Paul Anderson, Uwch Ddarlithydd mewn Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Lerpwl John Moores

Dogfennau Ategol:

FIN(6)–10–24 P1 – Dr Paul Anderson: Ymateb i'r ymgynghoriad

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog Rhif 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(11.30)

6 Cysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol: Trafod y dystiolaeth

(11.30–11.40)

7 Adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru:

Cylch Gorchwyl

(11.40–12.10)

(Tudalennau 52 – 73)

Dogfennau ategol:

FIN(6)–10–24 P2 – Papur cwmpasu

FIN(6)–10–24 P3 – Rhestr ymgeiswyr / cylch gorchwyl drafft OGCC

8 Diweddariad ar Aelodaeth Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

(12.10–12.25)

(Tudalennau 74 – 89)

Dogfennau Ategol:

FIN(6)–10–24 P4 – Papur blaen

FIN(6)–10–24 P5 – Telerau ac amodau Aelodau Anweithredol y Bwrdd

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad
a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a
Chadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
SeneddDCC@senedd.cymru

19 Ebrill 2024

Annwyl Sarah a Peredur

Diolch ichi am eich llythyr ar y cyd yn ymateb i'm llythyrau at Gadeiryddion eich priod
Bwyllgorau yn y Senedd.

Hoffwn egluro unrhyw gamddealltwriaeth bosibl o ran fy nghyfarfod arfaethedig. Nid wyf
wedi cyrraedd pwynt eto lle y gallaf wneud cynigion ynghylch strwythur ar gyfer y dyfodol i
wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru. Cyn dechrau'r gwaith ar y cynigion, fy mwiad
oedd i'm swyddogion gyfarfod â chi i gael eich barn a'ch syniadau cychwynnol, gan
gynnwys trafod cynigion sydd gennych chi, deall eich safbwyntiau am elfennau hanfodol
unrhyw strwythur ar gyfer y dyfodol, a sut y gallai'r cynigion gael eu rhoi ar waith. Y rheswm
dros hyn yw fy mod yn awyddus ichi fod yn rhan o'r broses hon o'r cychwyn cyntaf er mwyn
sicrhau y gellir cynnwys eich cynigion chi yn gynnar yn y cam cynllunio.

Yng nghyllideb y Canghellor ar 6 Mawrth, cafwyd enghraifft o'r mathau o ddigwyddiadau
allanol y mae'r pŵer a ddarperir yn Neddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022
wedi'i anelu atynt yn benodol. Cyhoeddodd y Canghellor y byddai trosglwyddiadau'r dreth
dir y dreth stamp sy'n ymwneud â rhyddhad anheddau lluosog, yn amodol ar
gymeradwyaeth Senedd y DU, yn cael eu diddymu o 1 Mehefin 2024 ymlaen. Roedd
penderfyniadau Deddf Casglu Trethi Dros Dro 1968 a basiwyd wedi araith y Canghellor yn
cynnwys diddymu'r rhyddhad a rheolau trosiannol cysylltiedig. O ganlyniad i'r hyn sy'n
gyffredin rhwng y rheolau yn nhreth dir y dreth stamp a'n rhyddhad treth trafodiadau tir ein

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd
gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding
in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 1

hunain ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog, bydd addasiadau grant bloc a gostyngiad yn ein hadnoddau yn sgil cyhoeddiadau'r Canghellor.

Roeddwn wedi bwriadu lansio ymgynghoriad i geisio barn ar gynigion i ddiwygio'r rhyddhad ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog yn rhan o'r gyllideb derfynol ar 5 Mawrth. Fodd bynnag, gan ystyried bod datganiad y Canghellor wedi'i drefnu at y diwrnod canlynol, penderfynais aros er mwyn gweld a fyddai unrhyw gyhoeddiadau yn effeithio ar fy nghynlluniau. Ni fydd o syndod ichi fod Llywodraeth y DU wedi dewis peidio â rhannu eu cynlluniau nhw â mi, na'm swyddogion, cyn cyhoeddiad y Canghellor. Fel y gwyddoch, gwnes i lansio ymgynghoriad ar 8 Ebrill ynghylch diddymu rhyddhad treth trafodiadau tir ar gyfer caffaeliadau sy'n ymwneud ag anheddau lluosog a rhai materion eraill. Mae diddymu trosglwyddiadau'r dreth dir y dreth stamp sy'n ymwneud â rhyddhad anheddau lluosog yn enghraifft amserol o'r materion a all godi oherwydd digwyddiadau allanol y bydd angen inni sicrhau y gall strwythur y dyfodol ddelio â nhw.

Gofynnaf felly ein bod yn mynd ati i drefnu'r cyflwyniad a'r cyfarfod cychwynnol hwn gan fy mod yn awyddus iawn i glywed pa gynigion sydd gan Aelodau o'r ddau Bwyllgor ynghylch yr hyn a allai sicrhau'r strwythur priodol ar gyfer y dyfodol.

Yn gywir



Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

23 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Yn dilyn fy llythyrau ar 21 Chwefror a 4 Mawrth ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Pwyllgor Cyllid ar oblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau), rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa cyn trafodion Cyfnod 3.

Yn unol â Rheol Sefydlog 26.28, rwyf heddiw wedi gosod Memorandwm Esboniadol diwygiedig gerbron y Senedd, sy'n ystyried gwelliannau a wnaed i'r Bil yng Nghyfnod 2. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn cynnwys Aseiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig, sy'n ymateb i nifer o argymhellion y Pwyllgor yng Nghyfnod 1.

Mae fy swyddogion wedi parhau i weithio'n agos gyda Chomisiwn y Senedd ar argymhellion y Pwyllgor ac mae'r sefyllfa ddiweddaraf wedi'i chynnwys yn y tabl sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Llywydd.

Yn gywir

Mick Antoniw AS/MS
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 3

Argymhelliad	Diweddariad
<p>Argymhelliad 4. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal gwaith modelu pellach o gostau staff y Comisiwn i gynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf i ddarparu ystod o gostau, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig..... Tudalen 28</p>	<p>Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi darparu costau staff diwygiedig ar gyfer y Comisiwn. Mae'r rhain yn cynnwys y graddfeydd cyflog isaf ac uchaf sydd wedi'u cynnwys gyda'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3.</p>
<p>Argymhelliad 7. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys: • asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; • ac asesiad o'r defnydd o ynni. Tudalen 29</p>	<p>Mae'r Llywydd wedi anfon ymateb ar wahân i'r argymhelliad hwn.</p>
<p>Argymhelliad 8. Yng ngoleuni'r system etholiadol newydd a allai arwain at gynnydd yng nghostau teithio, llety preswyl a staff yr Aelodau, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn ailasesu'r costau hyn ac yn darparu ystod o gostau yn hytrach na defnyddio costau cyfartalog yr Aelodau presennol, a bod y wybodaeth hon yn cael ei chynnwys mewn Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig. Tudalen 29</p>	<p>O'r trafodaethau y mae fy swyddogion wedi'u cael gyda swyddogion Comisiwn y Senedd, rwy'n deall bod ymarfer wedi'i gynnal i nodi methodoleg gredadwy ar gyfer amcangyfrif costau o'r fath mewn ffordd a oedd yn mynd i'r afael â'r argymhelliad. Fodd bynnag, sefydlwyd na ellid pennu costau ar hyn o bryd gydag unrhyw lefel o gywirdeb. Mae nifer o newidynnau y byddai angen eu hystyried ac nad oes digon o wybodaeth ar gael ar eu cyfer ar hyn o bryd (er enghraifft, sut y byddai Aelodau'n gweithredu mewn etholaeth aml-aelod, y ffaith nad oes meintiau etholaethau cyfatebol ar gael i'w defnyddio i allosod hawliadau etc).</p> <p>Bydd y Bwrdd Taliadau Annibynnol yn cynnal gwaith i ddatblygu'r Penderfyniad cyn y Seithfed Senedd; nid yw'n briodol inni achub y blaen ar y gwaith hwn.</p>
<p>Argymhelliad 9. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn diweddarau'r amcangyfrifon cost sy'n ymwneud ag Aelodau yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol:</p> <ul style="list-style-type: none"> gan ddefnyddio'r wybodaeth ariannol o'r Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau diweddaraf sydd ar gael; ac 	<p>Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi darparu costau diwygiedig ar Gyflogau a Lwfansau Aelodau sydd wedi'u cynnwys gyda'r Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3.</p> <p>Mae'r costau ar gyfer y cyflog ychwanegol i arweinwyr grwpiau gwleidyddol wedi'u cynnwys yn y Memorandwm</p>

<ul style="list-style-type: none"> • yn cynnwys y cyflog ychwanegol i arweinwyr grŵp gwleidyddol (nad yw yn y llywodraeth) ar gyfer pob Aelod yn eu grŵp (hyd at yr uchafswm y mae'r Penderfyniad yn ei ganiatau). Tudalen 29 	<p>Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig cyn trafodion Cyfnod 3.</p>
<p>Argymhelliad 10. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn gwneud rhagor o waith i asesu'r effaith y bydd gwahanol ddemograffeg o ran Aelodau sy'n cael eu hethol o'r newydd yn ei chael ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau. Tudalen 29</p>	<p>Mae swyddogion Comisiwn y Senedd wedi cadarnhau i'm swyddogion bod y Bwrdd Pensiynau yn bwriadu comisiynu adroddiad gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ynghylch effaith Diwygio'r Senedd ar y gronfa bensiwn ac y bydd y Bwrdd yn fodlon rhannu'r adroddiad canlyniadol â'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrinachol.</p>
<p>Argymhelliad 11. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil. Tudalen 29</p>	<p>Mae'r Llywydd wedi anfon ymateb ar wahân i'r argymhelliad hwn.</p>
<p>Argymhelliad 14. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn gwneud rhagor o waith i ddeall lefel yr anwadalrwydd o ran aelodaeth o un Senedd i'r nesaf, a'r goblygiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys yr effaith ar Gynllun Pensiwn yr Aelodau, yng ngoleuni'r newid i gylch etholiadol pedair blynedd.</p>	<p>Yn unol â'r ymateb i argymhelliad 10.</p>

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a
Swyddfa'r Cabinet

Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: RE/124/2024

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru

24 Ebrill 2024

Annwyl Peredur,

Mae'n bleser gennyf roi gwybod ichi bod Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi wedi cyhoeddi dau adroddiad dadansoddol sy'n defnyddio data treth incwm i edrych ar fudo.

Mae'r cyhoeddiad cyntaf yn ddadansoddiad o'r set ddata hydredol a gomisiynwyd gan Lywodraethau Cymru a'r Alban. Cafodd ei ariannu ar y cyd gan Lywodraethau Cymru, yr Alban a'r Deyrnas Unedig. Mae'r set ddata'n ymdrin â lleoliad ac incwm trethdalwyr y DU dros gyfnod o 12 mlynedd ac mae'n caniatáu dadansoddiad manwl o symudiad trethdalwyr ac incwm o fewn y DU.

Mae'r dadansoddiad yn canfod bod Cymru a'r Alban wedi gweld cynnydd graddol mewn mewnfudiad trethdalwyr net o weddill y DU o 2016-17 ymlaen, gyda chynnydd mwy yn 2020-21 a 2021-22 - o bosibl mewn ymateb i bandemig COVID

Mae'r ail gyhoeddiad, *Exploring impacts of 2018-19 Scottish Income Tax changes on intra-UK migration and labour force participation* yn defnyddio dadansoddiad econometrig i amcangyfrif yr ymatebion i Newidiadau Treth Incwm yr Alban 2018-19. Yn benodol, mae'n amcangyfrif y mudo rhwng yr Alban a rhannau eraill o'r DU, ac a yw pobl wedi ymuno â'r farchnad lafur neu wedi ei gadael. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu y byddai lefelau mudo net i'r Alban ymhlith unigolion sy'n ennill mwy na throthwy'r Gyfradd Uwch wedi bod yn uwch heb y newidiadau i Dreth Incwm yr Alban.

Rwy'n croesawu'r ychwanegiadau hyn i'r sylfaen dystiolaeth. Bydd y dadansoddiad yn helpu i wella'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo effaith y newidiadau i Gyfraddau Treth Incwm Cymru ac a gyhoeddir yng Nghyllid Cyflym Cyfraddau Treth Incwm Cymru ochr yn ochr â'n Cyllideb ddrafft. Mae datblygu'r sylfaen dystiolaeth hon hefyd yn darparu gwybodaeth bwysig i helpu i lywio penderfyniadau polisi treth yn y dyfodol.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 6
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rebecca Evans AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad
a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our MA-RE-5012-24

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

25 Ebrill 2024

Annwyl Peredur

Diolch am waith craffu'ch Pwyllgor ar Ail Gyllideb Atodol 2023-24 a'r adroddiad dilynol.

Atodaf ymateb ysgrifenedig i'r argymhellion a wnaed. Gobeithiaf y bydd yr ymateb yn ddefnyddiol ichi.

Yn gywir,

Rebecca Evans AS/MS

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet
Cabinet Secretary for Finance, Constitution & Cabinet Office

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Tudalen y pecyn 7

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I'R ARGYMHELLION YN ADRODDIAD Y PWYLLGOR CYLLID:

CRAFFU AR AIL GYLLIDEB ATODOL LLYWODRAETH CYMRU 2023-24 EBRILL 2024

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn galw am yr hyblygrwydd mwyaf posibl o fewn y Fframwaith Cyllidol i alluogi Llywodraeth Cymru i:

- **gario cyllid ymlaen o un flwyddyn ariannol i'r llall, yn enwedig pan wneir newidiadau i gyllid canlyniadol yn Amcangyfrifon Atodol y DU; a**
- **chynyddu'r terfynau tynnu i lawr blynyddol ar Gronfa Wrth Gefn Cymru yn 2023-24 a blynyddoedd i ddod.**

Ymateb: Derbyn

Mae Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU am fwy o hyblygrwydd cyllidol drwy'r sianeli priodol, gan gynnwys y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) a thrwy gyfarfodydd dwyochrog a chyfarfodydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys a Changhellor y Trysorlys.

Mae'r ysgogiadau cyllidol sydd ar gael ar hyn o bryd i Lywodraeth Cymru yn cyfyngu ar ein gallu i ymateb yn gyflym i anghenion sy'n dod i'r amlwg, sy'n golygu ein bod yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU, sy'n methu â chydabod yr effaith ar ein cyllidebau a'r gwaith craffu a ddarperir gan y Senedd. Nid yw trefniadau ariannol presennol y DU yn cynnig y rhagweladwyedd a'r sicrwydd cyllidol y mae ei angen i gefnogi ein cynlluniau cyllidebol a chynlluniau ein sefydliadau partner.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) wedi tynnu sylw gynt at yr achos dros bwerau wrth gefn gwell yng Nghymru ac i gynyddu'r terfynau tynnu i lawr, os na chânt eu diddymu. Barn IFS yw y dylai'r terfynau presennol ar y cyfanswm y gellir ei ddal mewn cronfeydd wrth gefn gael eu mynegeo mewn rhyw ffordd, ar y lleiaf, i gyfrif am dwf mewn gwario datganoledig a refeniw trethi.

Nododd adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru fod cyfyngiadau'r gyllideb a ddefnyddir gan Drysorlys EF yn tanseilio gallu Llywodraeth Cymru i reoli ei chyllideb a chynllunio ar gyfer y tymor hir. Mae'r adroddiad yn dadlau bod yr hyblygrwydd ariannol yr ydym yn parhau i'w geisio gan Drysorlys EF yn rhesymol, ac y dylai naill ai ei dderbyn neu esbonio ei resymeg.

Ar 27 Chwefror, cyflwynodd pob plaid yn y Senedd gynnig ar y cyd a phleidleisio yn unfrydol i Lywodraeth y DU ddarparu hyblygrwydd cyllidol ychwanegol i Gymru.

Yn 2024-25 bydd terfynau benthycyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru werth bron i chwarter (23%) yn llai mewn termau real na phan gawsant eu cyflwyno yn 2018-19. Mae Gweinidogion Cymru wedi cyflwyno'r achos dro ar ôl tro i derfynau benthycyca a chronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru gael eu mynegeo gyda chwyddiant ac i ddiddymu ei therfynau ar gyfer tynnu i lawr o'i Chronfa Wrth Gefn. Darparwyd yr hyblygrwydd hwn i Lywodraeth yr Alban fis Awst diwethaf ac maent yr un mor gymwys i Gymru.

Ar ben hynny, mae'r cynnydd yn lefel yr hyblygrwydd ar gyfer benthycyca cyfalaf a gynigir gan Lywodraeth y DU i Ogledd Iwerddon i gefnogi'r gwaith o adfer y Weithrediaeth yn gyferbyniad llwyr i'r diffyg cynnydd yn ein terfynau benthycyca.

Mae gwerth ein cyllideb cyfalaf cyffredinol ar gyfer 2024-25 hyd at 8% yn llai mewn termau real na phan gafodd ei phennu adeg yr Adolygiad o Wariant yn 2021. Rhaid bod yn deg ac yn gyson wrth weithredu trefniadau cyllido'r DU ar draws pob rhan o'r DU.

Yn ogystal â'r cynnydd mewn benthyciadau a therfynau tynnu i lawr, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet, ynghyd â'r Gweinidogion Cyllid datganoledig eraill, yn parhau i gyflwyno'r achos i Lywodraeth y DU sefydlu egwyddor y gellir rheoli cyllid a gadarnhawyd yn Amcangyfrifon Atodol y DU ar draws blynyddoedd ariannol, yn ogystal ag unrhyw swm y caniateir ei gario ymlaen a ganiateir o dan drefniadau wrth gefn. Byddai hyn yn ffurfioli'r trefniadau blaenorol ac

yn rhoi mwy o sicrwydd i lywodraethau datganoledig i gynllunio gwasanaethau cyhoeddus effeithiol.

Mae llywodraethau datganoledig wedi cael caniatâd i gario cyllid ymlaen yn Amcangyfrifon Atodol y DU sy'n wahanol i fwy na 10% o'r amcangyfrifon cychwynnol a ddarparwyd ym mis Ionawr. Er bod unrhyw gytundeb sy'n darparu cymorth i reoli'r risg o ansicrwydd i'w groesawu, nid yw'r mecanwaith hwn yn ddigonol pan hysbysir newidiadau materol mor hwyr â mis Ionawr mewn blwyddyn ariannol. Eleni, roedd y newidiadau i'r adnoddau cyfun yn cyfrif am fwy na hanner cyfanswm gwerth Cronfa Wrth Gefn Cymru.

Yng nghyfarfod diweddaraf F:ISC ar 14 Mawrth, sicrhaodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet (y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gynt) gytundeb gan Brif Ysgrifennydd Trysorlys EF a swyddogion y Llywodraethau Datganoledig i gydweithio i gyflwyno cynigion pellach ar sut y gellir gwella proses Amcangyfrifon Atodol y DU yn y blynyddoedd i ddod.

Croesewir cefnogaeth barhaus y Pwyllgor Cyllid ar y mater hwn.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu rhagor o wybodaeth am y rhesymau dros benderfyniad y Trysorlys i beidio â chaniatáu'r switsh mewn cyllid o refeniw i gyfalaf a'r effaith y mae hyn wedi'i chael ar sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Ni chytunodd Trysorlys EF i'n cais i newid cyfalaf i refeniw y tu hwnt i'r rhai a ddeilliodd o addasiadau Barnett o switshys y cytunwyd arnynt ar gyfer Adrannau Llywodraeth y DU, a dim ond oherwydd newidiadau eraill y mae effaith gwrthod y switsh wedi'i lliniaru.

Adolygwyd ein rhaglenni cyfalaf fel rhan o'r ymarfer arbedion yn ystod y flwyddyn pan ofynnwyd i Lywodraeth y DU newid rhywfaint o'n cyllideb gyfalaf i referniw.

Pan wrthododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys y cais hwnnw, adolygwyd ein sefyllfa gyfalaf ac, yn yr amser byr a oedd ar gael, gwnaethom rai dyraniadau cyfalaf y gellid eu darparu erbyn diwedd y flwyddyn.

Yn ein hail gyllideb atodol, roeddem yn rhag-weld cario tua £70m o gyfalaf ymlaen yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru i'w ddefnyddio yn y blynyddoedd i ddod.

Nid yw'r broses bresennol lle y dyrennir 'switshys' i Lywodraeth Cymru yn seiliedig ar gyfran Barnett o 'switshys' Whitehall yn addas i'r diben ac nid yw'n cymryd i ystyriaeth ei hanghenion penodol.

Rydym yn falch bod cefnogaeth beinciau'r Ceidwadwyr inni gael y gallu i wneud switshys o Gyfalaf i Adnoddau ar glawr.

Er bod Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet wedi nodi effaith penderfyniad Trysorlys EF, yn y pen draw, mater i Drysorlys EF yw nodi ei resymeg.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn gosod cynnig cyllideb atodol ychwanegol gerbron y Senedd wrth wneud newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn i gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Gwrthod

Mae Protocol y Gyllideb y cytunwyd arno gan y Pwyllgor Cyllid a Llywodraeth Cymru yn nodi'r ymrwymiad i gyhoeddi dwy gyllideb atodol bob blwyddyn.

Nid dim ond cynlluniau gwario sydd o dan sylw mewn cyllidebau atodol, ond hefyd lefel yr adnoddau a geir. Hwyt yw'r mecanwaith ffurfiol i gytuno ar gynlluniau gwariant y Llywodraeth a rheoleiddio cyllido gwariant drwy gyllid sy'n dod i law oddi wrth lywodraeth y Deyrnas Unedig a threthi datganoledig. Dim ond pan fydd yr holl wybodaeth honno ar gael y mae'n briodol cyflwyno cyllideb atodol.

Rhoddir ystyriaeth i amseriad pob cyllideb atodol i sicrhau ei bod yn adlewyrchu newidiadau i gyllidebau o ganlyniad i benderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, a hefyd i gofnodi newidiadau sy'n codi o ganlyniad i benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Am y rheswm hwnnw, rydym yn ceisio cysoni amseriad ein cyllidebau atodol â Phrif Amcangyfrifon ac Amcangyfrifon Atodol Llywodraeth y DU i ganiatáu i'r Senedd graffu ar lefel yr adnoddau yn ogystal â chynigion ar gyfer eu defnyddio.

Fel arfer, cyhoeddir cyllideb atodol gyntaf blwyddyn ariannol yn dilyn cwblhau Prif Amcangyfrif Llywodraeth y DU; gall hyn hefyd gadarnhau newidiadau yn deillio o Ddatganiad Gwanwyn Llywodraeth y DU ym mis Mawrth a hysbyswyd yn rhy hwyr i'w cynnwys yng Nghyllideb Derfynol Llywodraeth Cymru.

Fel arfer, cyhoeddir yr ail gyllideb atodol ar ôl i Amcangyfrif Atodol Llywodraeth y DU gael ei gwblhau. Gan mai'r gyllideb atodol hon yw'r cyfle olaf yn ystod y flwyddyn ariannol i reoleiddio newidiadau oherwydd penderfyniadau Llywodraeth y DU mae'r amseru'n hanfodol i sicrhau bod cynigion gwariant sy'n cael eu cymeradwyo gan y Senedd yn cynnwys y newidiadau hynny. Mae Amcangyfrifon Atodol y DU fel arfer yn dod i ben ar ddechrau mis Chwefror.

Gellir gwneud penderfyniadau dyrannu, naill ai o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru neu eu hail-flaenoriaethu o fewn MEGs i fynd i'r afael â phwysau sy'n dod i'r amlwg, cyn cyllideb atodol a'u rheoleiddio mewn cyllideb atodol arfaethedig.

Cafodd cyllideb atodol ychwanegol ei dwyn ymlaen yn ystod blwyddyn gyntaf pandemig Covid yng ngoleuni'r cronfeydd ychwanegol eithriadol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU yng nghanol y flwyddyn honno.

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn mynd i sesiwn graffu ffurfiol cyn gynted â phosibl ar ôl cyhoeddi'r manylion pe bai unrhyw newidiadau sylweddol yn cael eu gwneud i gyllideb Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Ymateb: Derbyn

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a'r Cabinet yn parhau i groesawu'r gwaith craffu'r Pwyllgor Cyllid ac yn cefnogi ymgysylltiad yn y broses gyllidebol.

Mae hyn yn cynnwys craffu ar newidiadau sylweddol yn ystod y flwyddyn megis yr ymarfer adolygu'r gyllideb yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd dros fisoedd haf 2023.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn ystyried cyhoeddi'r wybodaeth alldro a ragwelir yn rheolaidd o fewn y flwyddyn, i gynnwys dadansoddiad o'r gwariant o fewn pob Prif Grŵp Gwariant a sut mae'r dyraniadau hyn yn cyflawni yn erbyn canlyniadau a gynlluniwyd, er mwyn darparu'r tryloywder mwyaf posibl i'r Senedd ac i'r cyhoedd yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor

Rydym eisoes yn amlinellu gwybodaeth sylweddol drwy gydol y flwyddyn ariannol drwy Gyhoeddiadau'r Gyllideb Drafft, Terfynol ac Atodol. Rydym yn adrodd ar fonitro a chyflawni canlyniadau drwy adroddiad y Rhaglen Lywodraethu. Hefyd, drwy gydol y flwyddyn rydym yn cyhoeddi ystod o wybodaeth drwy ein gwefan ar fonitro a chanlyniadau meysydd polisi.

Rydym yn hapus i ystyried gwelliannau drwy ein gwaith ar Gynllun Gwella'r Gyllideb, gan gydnabod bod rhaid i newidiadau o'r fath fod yn gymesur ac y dylid eu hystyried hefyd drwy unrhyw newidiadau i Brotocol y Gyllideb.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog yn darparu manylion am y cynnydd y mae byrddau iechyd lleol yn ei wneud o ran cyrraedd cyfansymiau rheoli targed cyn y sefyllfa alldro yn yr haf, ac yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn monitro cynnydd i osgoi'r angen am ddyraniadau ychwanegol yn y maes hwn yn y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd pob un ond tri o sefydliadau'r GIG yn cyflawni'r targedau a bennwyd ar eu cyfer ym mis Tachwedd, gan gynnwys y gostyngiadau o 10% mewn diffygion y gofynnwyd amdanynt.

Yn anffodus, nid yw tri Bwrdd wedi llwyddo i gyrraedd eu cyfansymiau rheoli targed. Er hynny, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gwrthbwysu'r diffygion hynny yn rhannol drwy ddod o hyd i arbedion cynyddol o fewn ei phortffolios cyllidebol.

Rhagwelwyd diffyg cyfunol y GIG, ym Mis 11, fel £71.5m yn uwch na'r cyfansymiau rheoli targed a bennwyd gan y Gweinidog.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'i swyddogion wedi parhau i weithio gyda sefydliadau'r GIG i geisio gwella eu sefyllfaoedd yn y flwyddyn ariannol hon ac yn y dyfodol.

Mae fframwaith uwchgyfeirio sefydledig ar gyfer sefydliadau'r GIG a gwnaeth y Gweinidog ddatganiad llafar yn nodi'r sefyllfa ar 23 Ionawr.

Er bod lefel gyffredinol yr uwchgyfeirio yn adlewyrchu ystyriaethau ehangach yn ogystal â'r sefyllfa ariannol, mae'n werth nodi bod y tri Bwrdd Iechyd sy'n rhag-weld y byddant yn brin o'u cyfansymiau rheoli targed i gyd yn destun lefelau uwch o uwchgyfeirio.

